**BWRDD PENSIWN RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Iau 15 Ionawr 2026 am 11.30am.

**Aelodau Bwrdd Pensiwn RhCT yn bresennol:**

Yr Athro Hugh Coombs – Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Rob Whiles – Cynrychiolydd yr Aelodau (Pensiynwyr)
Craig Flynn, Cyfarwyddwr Cyllid (Adran 151), Swyddog CBS Merthyr Tudful

**Swyddogion yn bresennol**

Mr I Traylor – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion
Mr B Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151)
Mrs C Black, Rheolwr y Gwasanaethau Pensiwn

**Ymddiheuriadau**

Darren Griffiths - Cynrychiolydd yr Undebau Llafur (CBS Merthyr Tudful)
Catherine Bartlett – Cyfrifydd y Trysorlys a Phensiynau

**31 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau Bwrdd Pensiwn RhCT a'r Swyddogion i'r cyfarfod. Croesawodd y Cadeirydd Mr Craig Flynn, Cyfarwyddwr Cyllid (Adran 151), Swyddog Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, i'w gyfarfod cyntaf o Fwrdd Pensiwn RhCT.

**32 DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Nodwyd cyfrinachedd y trafodaethau.

**33 COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 16 **Hydref 2025** eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

**Materion sy'n Codi:**

O ran Baillie Gifford, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod rheolwr y gronfa yn cael ei fonitro ac yn yr un modd bydd monitro'n parhau wrth drosglwyddo i'r gronfa 'newydd'.

O ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cafodd yr Aelodau eu sicrhau

ynghylch y broses o feddiannu'r Uned Ddata Llywodraeth Leol ('LGDU'), sy'n un o gyflogwyr presennol y gronfa, o 1 Rhagfyr 2025, gyda disgwyl rhagor o drosglwyddo o 1 Ebrill 2026.

O ran cofnod 30, cafodd yr Aelodau wybod bod y Rheoleiddiwr Pensiynau yn mynd i anfon holiadur.

**Pwyntiau gweithredu:**

Cofnod 30 – y diweddaraf o ran y Bwrdd Cynghori: Digwyddodd hyn mewn cyfarfod yn Llundain ym mis Hydref. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd cynllun 'Addas i'r Dyfodol' a threfniadau newydd y cronfeydd. Hefyd ar yr agenda roedd cyflwyniadau ar gyfer y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ('MHCLG'), cyflwyniad panel o ymatebion gwahanol gronfeydd i gynllun 'Addas i'r Dyfodol' (gan gynnwys aelod o banel Partneriaeth Pensiwn Cymru) ac amlinelliad o gymwysterau pensiwn posibl ar gyfer staff gweinyddol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('LGPS').

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diweddar. Cafodd yr Aelodau wybod bod presenoldeb yn y cyfarfod yn dda. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd fod y cyfle i drafod materion gyda'r Cynghorydd Leyshon wedi bod o fudd.

**Cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a Phartneriaeth Pensiwn Cymru:**

PENDERFYNODD Aelodau'r Bwrdd nodi cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Nodwyd y bydd cyfarfod arbennig Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Chwefror cyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Mawrth.

## 34 PANEL YMGYNGHORI – BUDDSODDI A GWEINYDDU

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025.

Nododd Aelodau'r Bwrdd fod cyfanswm enillion y Gronfa Bensiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2025 yn 10% (y meincnod oedd 11.3%). Nodwyd ffigurau cyflawniad 3 blynedd rheolwyr gweithredol cronfeydd y tu hwnt i reolaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Nododd yr Aelodau eto nad oedd y portffolio twf byd-eang yn perfformio'n dda a'i fod yn cael ei fonitro.

Cafodd dyraniad asedau'r Gronfa yn ôl dosbarth asedau o'i gymharu â'r meincnod targed ar 30 Medi 2025 ei nodi (gweler y tabl ar dudalen 12 yr adroddiad). Nodwyd y byddai adolygiad asedau a rhwymedigaethau lefel uchel yn cael ei gwblhau ar ôl cwblhau ymarfer Gwerthuso Teirblynyddol 2025. Nodwyd hefyd ddyraniad asedau (gan gynnwys arian parod) fesul cronfa yn ôl mandad rheolwyr y cronfeydd.

Ar ôl trafod, nododd y Bwrdd y cyflwyniad gan Black Rock. Nododd Aelodau'r Bwrdd fod cyfleoedd 'adnewyddadwy' yn brin.

Parhaodd y trafodaethau ynghylch buddsoddiad Amgylcheddol.

O ran gweinyddu a llywodraethu, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad yw'r tri thaliad hwyr a nodwyd yn dor-rheol sydd angen ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau o ystyried eu gwerth. Yn unol â sylwadau'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, aeth y bwrdd ati i gydnabod y gall adnoddau fod yn broblem i awdurdodau mor fach, fel y mae hyn yn ei ddangos. Cadarnhaodd y Bwrdd ei gytundeb â'r asesiad yma.

Nodwyd bod y Gronfa wedi parhau i gyflwyno sylwadau i'r ymarferydd ansolfedd a benodwyd mewn perthynas â'r hen 'Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful'. Mae'r ymarferydd ansolfedd wedi cadarnhau ei fod yn debygol o gymryd peth amser i gwblhau'r broses newydd. Rhagwelwyd na fyddai digon o arian anghyfyngedig ar ôl o ganlyniad i ddiddymu'r asedau.

Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw ddigwyddiadau 'seiber' i'w hadrodd yn ystod y cyfnod hwn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch materion gweinyddol allweddol.

Nodwyd bod Mr David Francis (Cynrychiolydd y Cyflogwyr) wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd Pensiwn yn dilyn ei ymddeoliad. Dywedodd y Cadeirydd fod e-bost wedi'i anfon at Mr Francis i ddiolch iddo am ei waith caled a'i ymrwymiad tra roedd yn aelod o'r Bwrdd Pensiwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod Mr Craig Flynn bellach wedi'i benodi i'r Bwrdd. Croesawodd yr Aelodau ef fel Aelod newydd (gweler tudalen 31).

Nodwyd bod y Bwrdd Cynghori wedi cyhoeddi adroddiad yn crynhoi canfyddiadau arolwg diweddar a geisiodd fewnwelediad i amrywiaeth cynrychiolaeth ar Bwyllgorau a Byrddau Pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('LGPS'). Mae'r adroddiad yn amlinellu camau y mae'r Bwrdd Cynghori yn bwriadu eu cymryd, gan gynnwys:
Llunio canllawiau statudol clir ar ba wybodaeth ddemograffig y dylid ei chasglu a'i chyhoeddi er mwyn sicrhau dull safonol a chyson.

- Darparu teclynnau ymarferol i esbonio pwrpas a manteision cyhoeddi gwybodaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn yr adroddiad blynyddol.
- Trin a thrafod cyfleoedd i rannu arfer da, fel sut i annog ceisiadau o grwpiau demograffig ehangach.

Dywedwyd wrth y Bwrdd y bydd y Bwrdd Cynghori'n trin a thrafod hyn ymhellach yn dilyn canlyniadau'r arolwg.

Nododd Aelodau'r Bwrdd fod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi ystadegau newydd ar gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn 2024–2025, gyda sylwadau allweddol ar lefel cynllun:
  - Lefel y gwariant oedd £19.1 biliwn, sef cynnydd o 11.7%;
  - Tyfodd incwm 5.2% i £21.7 biliwn, wedi'i yrru'n bennaf gan incwm o fuddsoddiadau;
  - Tyfodd gwerth marchnad cyfunol cronfeydd LGPS, gan gyrraedd £402.3

biliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2025, cynnydd o 2.7%;
- Roedd cynnydd yn y nifer o ymddeoliadau wedi parhau, gyda 110,678 o aelodau yn ymddeol yn 2024–2025, sef cynnydd o 11.2%; a
- Dyma oedd y diwedd blwyddyn cyntaf i nifer y pensiynwyr (2.181 miliwn) fod yn fwy na nifer y gweithwyr (2.169 miliwn),

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybod, yn dilyn cyhoeddiad Cod Ymarfer Cyffredinol newydd y Rheoleiddiwr Pensiynau a ddaeth i rym ar 27 Mawrth 2024, bod Gweithgor Cronfa Bensiwn RhCT wedi cwblhau'r ymarfer dadansoddi bylchau y cytunwyd arno, sydd wedi canfod bod yr amgylchedd rheoli a'r dystiolaeth ategol yn briodol. Cafodd trefniadau olrhain cydymffurfiaeth y Gronfa eu hadolygu'n annibynnol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Barn yr Archwiliad oedd bod y trefniadau'n rhoi 'sicrwydd sylweddol'. Mae adborth o sesiwn herio olaf ym mis Gorffennaf gyda'r Bwrdd Pensiwn wedi'i dderbyn a bydd yn cael ei ddiweddaru i wella cofnod cydymffurfio'r Gronfa.

Roedd Aelodau'r Bwrdd yn falch o glywed bod Cronfa RhCT wedi ymateb i ymgynghoriad "Addas i'r Dyfodol" Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('LGPS'), a ddaeth i ben ar 16 Ionawr 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin â chyfuno buddsoddiadau a chynigion llywodraethu da. Mae'r Gronfa'n parhau i weithio'n agos gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru a rhanddeiliaid yn hyn o beth. Mae Bil Pensiwn 2025 yn gweithio ei ffordd drwy'r Senedd. Mae rhagweld y bydd y rheoliadau drafft ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf ynghyd â'r set gyntaf o ganllawiau mewn perthynas â ffrwd waith 'Llywodraethu Da' y Bwrdd Cynghori. Mae disgwyl i'r canllawiau cyntaf hyn gynnwys y meysydd allweddol canlynol:
- Gweithredu'r Adolygiad Llywodraethu Annibynnol
- Rôl Uwch Swyddog y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('LGPS')
- Gofynion yr Ymgynghorydd Annibynnol.

Nododd y Bwrdd fod gwaith diweddaru'r Datganiad o'r Strategaeth Ariannu ar y gweill ar hyn o bryd, a bydd cyfnod ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol yn dilyn hynny cyn cytuno yng nghyfarfod ar y cyd y Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn ym mis Mawrth 2026.

Nododd y Bwrdd fod Ymarfer Gwerthuso'r Cronfeydd 2025 yn mynd rhagddo'n dda.

Parhaodd y trafodaethau a chafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am waith Gweithgor McCloud. Nodwyd diweddariadau Ansawdd Data hefyd a chadarnhawyd bod I-connect yn parhau i gael ei gyflwyno gyda'r Cyflogwr terfynol heb ymuno eto ond ei fod wedi cael ei atgoffa o'i rwymedigaeth.

O ran TGCh/Technoleg, dywedwyd wrth y Bwrdd fod swyddogaeth Heywood ar gyfer crynoadau a chyfredolion wedi'i chyflwyno ac yn cael ei rhoi ar waith, a'i bod yn disodli prosesau â llaw.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNODD** Aelodau'r Bwrdd nodi cofnodion cyfarfod y Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025.

## 35 MONITRO RISG

Trafododd y Bwrdd y risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a nododd y newidiadau yn y Gofrestr Risg wedi'i diweddaru.

Cyfeiriodd Aelodau'r Bwrdd at dudalen 30 a'r geiriau “adolygiad ôl-werthuso” (“post valuation review”).

Cyfeiriodd Aelodau'r Bwrdd hefyd at dudalen 36, gan nodi y dylai hyn gynnwys sefyllfa ddiweddaraf y dangosfwrdd. Nodwyd bod angen newid y geiriau “mesur rheoli” (“control measure”) o hyd.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

**36 CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN**

Aeth y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) ati i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Bwrdd ynghylch Partneriaeth Cydgyfrannu Cymru Gyfan a datblygiadau newydd ers y diweddariad diwethaf ar gynnydd y cwmni newydd.

Cadarnhawyd bod recriwtio yn flaenoriaeth allweddol a bod swyddi gwag Uwch Reolwyr bellach wedi'u llenwi'n llwyddiannus. Byddan nhw yn eu swyddi cyn 31 Mawrth. Cafodd y Bwrdd wybod bod rheolwr swyddfa hefyd wedi'i benodi.

Nodwyd bod trafod telerau ar gyfer pencadlys ar y gweill a bydd y swyddfa yng Nghaerdydd.

Cafodd y Bwrdd wybod bod dogfennau llywodraethu yn agwedd allweddol arall a bod angen i'r rhain fod ar waith cyn i waith y cwmni ddechrau.

O ran Bwrdd y Cyfranddalwyr, mae amryw o faterion i'w cadarnhau. Mae'r rhain yn cynnwys materion strategol allweddol yn ogystal â sut mae cyfathrebu wrth lywodraethu ar y cyd a pharhau i wneud hyn yn gyhoeddus.

Nododd y Bwrdd, o ran cynrychiolaeth cyfranddalwyr ar fwrdd y cwmni, fod pedwar cyfarwyddwr sy'n trosglwyddo i'r cwmni yng nghanol trafod unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau. Mae rôl Aelod Etholedig ar y Bwrdd hefyd yn cael ei thrafod ar hyn y bryd.

O ran cyllideb, cadarnhawyd bod trafodaethau’n parhau. Nodwyd y byddai'r flwyddyn gyntaf yn un drosiannol.

**<u>Prosiect Snowden</u>**

Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) fod ymrwymiad i gyflwyno Prosiect Snowden i gyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Mawrth 2026.

Roedd gan y Bwrdd Cynghori sylwadau ar y rheoliadau, gan gynnwys statws y cwmni fel unig ymgynghorydd a materion gwrthdaro buddiannau. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) y bydd hyn yn cael ei fonitro.

Daeth y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) i'r casgliad bod y prosiect yn datblygu'n dd. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau yn y misoedd nesaf.

Yn dilyn y trosolwg, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddaraf o ran Partneriaeth Cydgyfrannu Cymru Gyfan.

## 37 FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion Aelodau'r Bwrdd at y cynllun hyfforddi. Gofynnodd i'r Aelodau roi gwybod iddo os oedd unrhyw beth ar goll.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r fframwaith gwybodaeth a dealltwriaeth diwygiedig.

## 38 PROSIECTAU ALLWEDDOL – Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Pensiwn yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd ynghylch prosiectau allweddol.

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybod bod Canlyniadau Gwerthuso gan y rhan fwyaf o gyflogwyr wedi dod i law. Dywedodd wrth Aelodau'r Bwrdd ei fod yn aros am ganlyniadau adolygiad cyfamod ar gyfer rhai cyflogwyr.

O ran y Dangosfwrdd, llwyddodd y Gronfa i sefydlu erbyn y dyddiad cau ar 31 Hydref. Cadarnhawyd mai data yw'r ffocws nawr. Cadarnhawyd nad oes dyddiad lansio eto.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariadau ar brosiectau allweddol.

## 39 MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL

**<u>Y diweddaraf o ran ymgynghoriadau:</u>**

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod nifer o ymgynghoriadau wedi'u cyhoeddi o fewn wythnosau i'w gilydd.

Cadarnhawyd bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymateb i bob un yn unigol ac wedi rhoi ymateb 'Cymru Gyfan' ar yr ymgynghoriad ar gydgyfrannu. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw dydd Gwener 12 Chwefror.

**<u>Y diweddaraf o ran Datganiad Strategaeth</u>**

Mae gwaith llunio datganiad strategaeth wedi dechrau ac mae trafodaethau gyda'r Actiwari ar y gweill.

## 40 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHORFFORAETHOL

Rhannodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion ragor o wybodaeth i ategu polisi 'Buddsoddi Cyfrifol' y Cyngor. Cadarnhawyd bod datganiad Cronfa wedi'i ddrafftio mewn perthynas â dadfuddsoddi, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran trywydd. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Gronfa er mwyn helpu i dawelu meddyliau Aelodau'r Cynllun a Chyflogwyr ynghylch cyfrifoldebau ymddiriedol y gronfa.

Nodwyd bod Bwrdd Ymgynghori'r Cynllun yn dal i aros am ymateb i'w lythyr (a anfonwyd ar 13 Hydref) gan y Gweinidog.

**41 UNRHYW FATERION ERAILL**

Cyfeiriwyd Aelodau'r Bwrdd at ddolen Bwletinau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (a oedd wedi'i chynnwys yn yr agenda) i gael yr wybodaeth ddiweddaraf a chrynodeb y Cadeirydd.

**Y diweddaraf am hyfforddiant CLIL**

Mae'r rhain wedi'u cadarnhau ar gyfer Ionawr 2026.

Cadarnhawyd y bydd dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd Pensiwn RhCT yn y dyfodol yn cael eu rhannu ar ôl y cyfarfod a bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon yn unol â hynny.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.26pm.**

**Yr Athro H. Coombs**
**Cadeirydd.**